



Vale of Glamorgan Council
Cyngor Bro Morgannwg

Safonau'r Gymraeg

Adroddiad Monitro Blynyddol

2020-2021



1. Cyflwyniad

Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i ddarparu gwasanaeth rhagorol i siaradwyr Cymraeg.

Yn ystod 2015, cawsom Hysbysiad Cydymffurfio cyfreithiol gan Gomisiynydd y Gymraeg yn nodi pa Safonau sy'n berthnasol i'r Cyngor.

Er mwyn cyflawni'r 174 o safonau sydd yn yr hysbysiad datblygodd y Cyngor Gynllun Gweithredu cynhwysfawr a gyhoeddir ar ein gwefan. Caiff cynnydd ei fonitro'n rheolaidd a chynhwysir crynodeb yn yr adroddiad hwn.

Cyhoeddom hefyd Strategaeth Hyrwyddo 5 mlynedd fel rhan o'r broses gydymffurfio sydd ar gael yn eang ar ffurf copi caled yn ogystal ag ar ein gwefan. Bydd y strategaeth yn cael ei hadolygu ar ddiwedd 2021 a bydd un newydd yn cael ei chynhyrchu ar gyfer y cyfnod 2022-27.

2. Prif gyflawniadau 2020/2021

- **Gwefan**

Yn ystod 2020/21 parhaodd y Cyngor i adolygu cynnwys ei wefan. Rydym bellach wedi dyfeisio system a fydd yn cynhyrchu adroddiadau ac yn nodi unrhyw dudalennau lle nad yw'r cynnwys Cymraeg a Saesneg yn cyfateb. Bydd hyn yn ein galluogi i gynnal archwiliad o'r wefan yn flynyddol er mwyn sicrhau bod y cynnwys yn gwbl ddwyieithog. Mae cynnydd yn parhau i gael ei wneud gyda'r Strategaeth Ddigidol a chaffael meddalwedd trydydd parti yn Gymraeg ac yn Saesneg.

- **Cyfrifon Cyfryngau Cymdeithasol**

Mae prif gyfrifon cyfryngau cymdeithasol y Cyngor bob amser wedi bod yn ddwyieithog ond yn dilyn ymholiad gan aelod o'r cyhoedd ym mis Medi 2019,

cyhoeddwyd canllawiau i sicrhau bod pob un o'r 40 cyfrif Twitter a'r 26 cyfrif Facebook yn gwbl ddwyieithog yn ogystal ag unrhyw gyfrifon Instagram.

- **Cyfathrebu Mewnol**

Yn union cyn y pandemig, roedd Staffnet ar gael i'r staff i gael gafael ar wybodaeth am eitemau newyddion mewnol, eu slipiau cyflog a rhai polisïau ar unrhyw ddyfais. Mae hyn wedi cael ei ddefnyddio'n dda iawn ac mae ar gael yn ddwyieithog. Rydym bellach yn anfon copi o newyddion yr wythnos at yr holl staff gan y Rheolwr Gyfarwyddwr ar ddiwedd pob wythnos ac anfonir hwn yn Gymraeg ac yn Saesneg hefyd.

- **Canolfan Gyswilt a Phrif Dderbynfeydd**

Mae'r Cyngor yn parhau i gynnig opsiwn i bob galwr wneud ei ymholiadau drwy gyfrwng y Gymraeg. Cyfanswm nifer y galwyr a ddefnyddiodd yr opsiwn hwn yn ystod 2020/21 oedd 1013 (2019/20 678). Mae galwadau drwy gyfrwng y Gymraeg wedi dangos cynnydd yn ystod y cyfnod o gymharu â gostyngiad cyffredinol mewn galwadau Saesneg. Yn ystod y cyfnod roedd y Cyngor hefyd yn cefnogi gwasanaeth bws ar alw Trafnidiaeth Cymru, Fflecsi, gan ateb 411 o ymholiadau ychwanegol drwy gyfrwng y Gymraeg ar gyfer y gwasanaeth hwn.

Mae'r Cyngor yn parhau i weithredu ei strategaeth ddigidol, gan gynnig nifer cynyddol o opsiynau hunanwasanaeth drwy ei wefan. Yn ystod y cyfnod cyflwynodd y cyngor opsiynau 'Sgwrsfot' a 'Gwe-sgwrs' drwy ei wefan. Mae'r gwasanaethau hyn yn cael eu cynnig ac yn parhau i gael eu cynnig yn Gymraeg ac yn Saesneg . Yn ystod y cyfnod rhwng Mai 2020 a 31 Mawrth 2021 ymdriniwyd â 454 o ymholiadau gwe-sgwrs drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae hyn yn cymharu â 4,324 o ymholiadau Saesneg.

Ar gyfartaledd roedd galwyr a oedd yn defnyddio'r opsiwn Cymraeg yn 2020/21 yn aros am 169 eiliad (2019/20: 172) i gael ateb i'w galwad tra bod galwyr sy'n defnyddio'r opsiwn Saesneg yn aros am 247 eiliad. Effeithiwyd ar berfformiad amser

aros yn sgil absenoldeb uchel o ran staff yn deillio o bandemig Covid-19 a newidiadau cysylltiedig i drefniadau gweithio yn ystod y cyfnod.

Ar ddiwedd y cyfnod adrodd roedd canran y staff dwyieithog yn y ganolfan gyswllt yn gyson ar 27%. Mae cynlluniau hyfforddi ar waith i gynyddu'r ystod o ymholiadau y gall y garfan staff ddwyieithog eu datrys ar y pwynt cyswllt cyntaf. Mae'r gwasanaeth yn parhau i ddarparu gwasanaeth Cymraeg wyneb yn wyneb mewn prif dderbynfeydd corfforaethol, er nad oedd y rhain ar waith am gyfnodau maith yn ystod y flwyddyn adrodd oherwydd y cyfyngiadau clo.

- **Gweithgareddau hyfforddi a hyrwyddo'r Gymraeg**

Mae'r Cyngor wedi parhau i gefnogi dosbarthiadau Cymraeg ffurfiol i staff yn ogystal â darparu sesiynau 'Blasu' rheolaidd. Mae 41 o staff wedi cofrestru eleni. Yn ogystal, mae cyfle i ddysgwyr o fewn y Cyngor sgwrsio â'i gilydd ar-lein gydag 'Ymarfer Grŵp' newydd sydd wedi'i sefydlu gan un o'r dysgwyr.

Mae dosbarthiadau wedi symud i Zoom o fis Rhagfyr 2020 sydd wedi golygu cyrhaeddiad ehangach gyda dysgwyr yn ymuno o wledydd eraill. Mae dysgu cyfunol wedi cyflymu lle mae dysgwyr yn edrych ar gynnwys ar-lein i baratoi ar gyfer y wers Zoom dan arweiniad tiwtor (2.5 awr). Mae hyn yn eu galluogi i gwmpasu un uned yr wythnos yn hytrach na hanner uned. Mae'r dysgwyr hyn yn cwblhau un lefel mewn blwyddyn.

Yn ystod y flwyddyn mae tîm LearnWelsh wedi cynnal cyrsiau Sadwrn Seiber er mwyn adolygu gyda niferoedd da. Cynhaliwyd gig hefyd gyda Dafydd Iwan a oedd ar gael i bob dysgwr yng Nghymru. Roedd hyn ar gyfer Dydd Miwsig Cymru ac a welodd gynnwys un o'n dysgwyr ar un o raglenni Radio Cymru.

Ar 1 Mawrth mae gennym ddau fore coffi cenedlaethol sef un ar gyfer Mynediad/Sylfaen a'r llall ar gyfer Canolradd/Uwch. Roedd tua 200 o gyfranogwyr yn cynnwys o leiaf un o Batagonia

Bydd 'Ar Lafar' gŵyl dysgwyr y Gymraeg yn rhithwir eto yn hytrach nag yn fyw o Sain Ffagan.

Cynhaliwyd digwyddiadau ar gyfer 'Mae gen i Hawl'/ Diwrnod Hawliau'r Gymraeg a Dydd Gŵyl Dewi eleni ar Staffnet y Cyngor ac roedd yn cynnwys cwisiau a gwybodaeth yn dathlu ein diwylliant. Gwnaethom hefyd rannu straeon am gyflawniadau ledled y Cyngor. Lansiwyd sesiwn wythnosol ar Radio Bro o ymadroddion Cymraeg i annog preswylwyr i ddysgu a defnyddio eu Cymraeg. Mae'r cytundeb 10 wythnos wedi'i adnewyddu'n ddiweddar a bydd ymadroddion yn cael eu haddasu i helpu pan fydd pobl yn dechrau mynd allan eto yn y Fro. Gofynnwyd hefyd i bobl drydar ymadrodd i ddysgu ffrind.

- **Cymraeg Gwaith**

Mae nifer o staff wedi cwblhau'r Cwrs Croeso Cymraeg 10 awr sydd ar gael drwy ein Staffnet. Mae modiwl arbennig hefyd ar gyfer staff y Gwasanaethau Cymdeithasol. Rydym wedi cofrestru diddordeb gyda'r Tîm Dysgu Cenedlaethol am y flwyddyn sydd i ddod ar gyfer cyrsiau Blasau Ar-lein, Hunan-astudio Ar-lein, Defnyddio'r Gymraeg a Meithrin Hyder siaradwyr Cymraeg.

- **Modiwl Ymwybyddiaeth o'r Gymraeg**

Mae'r Cyngor wrthi'n sefydlu modiwl dysgu ar-lein ar Ymwybyddiaeth o'r Gymraeg. Rydym yn gobeithio cyflwyno hyn i'r holl staff ac y bydd yn orfodol. Byddwn yn defnyddio modiwl a ddatblygwyd ac a gyflwynwyd yn llwyddiannus gan Gyngor Caerdydd ac a fydd yn cael ei addasu ar gyfer y Fro.

- **Cytundeb gyda Menter Bro Morgannwg**

Cytunwyd ar fframwaith ar gyfer gweithio mewn partneriaeth yn 2019 am dair blynedd arall. Y nod yw darparu amrywiaeth o weithgareddau cymunedol i drigolion lleol, gan gynnwys plant, pobl ifanc, teuluoedd ac oedolion sy'n dysgu a hynny er mwyn hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg. Eleni mae Menter y Fro wedi llwyddo i

ddarparu gweithdai ar-lein gan gynnwys canu, drama a cholur yn ystod pob hanner tymor. Roeddent hefyd yn cynnal cwisiau ac yn gallu darparu digwyddiad gŵyl ddigidol fel rhan o Tafwyl 2020. Mae llawer o'u gwaith yn cyfrannu at ein Strategaeth Hyrwyddo 5 mlynedd.

- **Cytundeb cyfieithu gyda Chyngor Caerdydd**

Llofnododd y Cyngor gontract gyda Chyngor Caerdydd ar gyfer yr holl waith cyfieithu Cymraeg ym mis Medi 2017 yn dilyn cyfnod llwyddiannus gyda Chytundeb Lefel Gwasanaeth. Yn ystod 2020/21 cyfieithwyd cyfanswm o 1,888,192 o eiriau. Daw'r contract i ben ym mis Awst 2021 a bydd proses dendro yn cael ei chynnal yn 2021.

- **Asesiad Sgiliau Ieithyddol**

Cynhaliodd y Cyngor ail Archwiliad Sgiliau Ieithyddol ym mis Medi 2018. Darparodd defnyddwyr cyfrifiaduron wybodaeth am eu sgiliau Cymraeg. Cyflwynwyd hyn drwy feddalwedd Metacompliance. Rydym wedi gallu diweddarau manylion bron i 1600 o staff ac mae hyn yn ein galluogi i dargedu gwybodaeth at siaradwyr Cymraeg yn ogystal â darparu rhestr wedi'i diweddarau at ddefnydd mewnol. Bwriedir cynnal archwiliad pellach ar gyfer 2022.

- **Gwirydd sillafu/troedyn e-bost Cymraeg ac ati**

Mae holl staff y Cyngor wedi derbyn copi o 'Cysgair' ar eu cyfrifiaduron. Rydym wedi prynu trwyddedau yn ddiweddar ar gyfer y fersiwn ddiweddaraf o'r feddalwedd hon ac mae hwn wedi'i osod ar holl gyfrifiaduron y cyngor sy'n galluogi staff i gyfathrebu'n haws yn Gymraeg ac i deimlo'n hyderus am eu gramadeg.

Rydym wedi trefnu i holl staff y cyngor gael troedyn dwyieithog gyda theitlau eu swyddi a chael negeseuon allan o'r allan swyddfa sy'n ddwyieithog. Mewn datblygiad diweddar, ychwanegwyd logo amlwg at enwau'r rhai sy'n siarad Cymraeg yn rhugl a logo ar wahân i nodi aelodau o staff sy'n dysgu Cymraeg. Mae hyn wedi bod yn

arbennig o ddefnyddiol yn ystod y cyfnod presennol o weithio gartref. Yn ogystal, mae staff a dysgwyr sy'n siarad Cymraeg yn gallu gwisgo cortynnau gwddf i nodi eu sgiliau pan fyddant yn y swyddfa.

- **Tudalen ar Staffnet ar gyfer siaradwyr Cymraeg/Nodiadau Atgoffa**

Mae tudalen bwrpasol ar ein Staffnet yn darparu gwybodaeth ddefnyddiol i siaradwyr Cymraeg yn ogystal â nodi eu hawliau o ran dogfennau mewnol. Cynhaliwyd ymgyrch o'r enw 'Think Cymraeg' gennym a oedd yn annog staff i fod yn ymwybodol o feysydd pwysicaf eu gwaith lle gall defnyddio'r Gymraeg wneud gwahaniaeth mawr. Rydym hefyd yn cyfeirio staff at gyrsiau addas.

- **Mwy Na Geiriau**

Mae'r grŵp rhanbarthol hwn a sefydlwyd yn wreiddiol i roi cynllun gweithredu Llywodraeth Cymru ar waith wedi dechrau cyfarfod eto yn ddiweddar. Mae'r rhai sy'n gysylltiedig yn cynnwys cynrychiolwyr o Wasanaethau Cymdeithasol Cyngor Caerdydd a Gwasanaethau Cymdeithasol y Fro yn ogystal â chynrychiolydd o'r Bwrdd Iechyd. Y diben yw rhannu arfer da a datblygu syniadau ar y cyd ar gyfer cynyddu'r defnydd o'r iaith. Mae sawl menter wedi'i datblygu gan gynnwys prosiect peilot ar gyfer recriwtio siaradwyr Cymraeg. Mae cynlluniau ar gyfer y dyfodol yn cynnwys codi ymwybyddiaeth drwy fynychu ffeiriau swyddi ar y cyd â hyrwyddo'r cynnig Cymraeg ar sianel cyfryngau cymdeithasol staff newydd (YAMA).

3. Crynodeb o Gynllun Gweithredu'r Cyngor gyda Chynnydd

	Cam gweithredu	Meysydd a gwmpesir	Rhif Cyfeirnod Safonol	Sylw/ diweddariad
1	Darparu nodyn briffio i uwch reolwyr/aelodau etholedig gael eu rhaedru drwy gyfrwng cyfarfodydd CMT/DMT/cyfarfodydd tîm	<p>Gohebiaeth Galwadau ffôn Cyfarfodydd/penodiadau</p> <p>Digwyddiadau Cyhoeddus</p> <p>Cyhoeddi dogfennau i'r cyhoedd</p> <p>Ymatebion Cyfryngau Cymdeithasol</p> <p>Polisiâu/strategaethau sydd ar gael i'r cyhoedd</p> <p>Trwyddedau/tystysgrifau</p> <p>Hysbysiadau swyddogol</p> <p>Hyrwyddo'r Gymraeg</p> <p>Systemau annerch y cyhoedd</p>	<p>1-5 19/20/21 24-26b, 27a- d,30- 34,65-66</p> <p>35-38</p> <p>43-50</p> <p>58-59</p> <p>44</p> <p>42</p> <p>69-70</p> <p>81-82</p> <p>87</p>	<p>Cyhoeddwyd nodyn briffio drwy Staffnet a thrwy'r briff craidd. Mae tudalen Cwestiynau Cyffredin ar gael ar Staffnet.</p> <p>Soniwyd mewn cyfarfodydd tîm adrannol yn ystod Mai/Mehefin 16. Mae cyngor yn parhau i gael ei geisio gan y swyddogion arweiniol corfforaethol.</p>

2	Darparu briff i'r Cabinet Busnes/uwch reolwyr/aelodau etholedig eraill	<p>Gohebiaeth Galwadau ffôn Cyfarfodydd/penodiadau</p> <p>Digwyddiadau Cyhoeddus</p> <p>Cyhoeddi dogfennau i'r cyhoedd</p> <p>Ymatebion Cyfryngau Cymdeithasol</p> <p>Polisiâu/strategaethau sydd ar gael i'r cyhoedd</p> <p>Trwyddedau/tystysgrifau</p> <p>Hysbysiadau swyddogol</p> <p>Hyrwyddo'r Gymraeg</p> <p>Systemau annerch y cyhoedd</p>	<p>1-5 19/20/21 24-26b, 27a- d,30- 34,65-66</p> <p>35-38</p> <p>43-50</p> <p>58-59</p> <p>44</p> <p>42</p> <p>69-70</p> <p>81-82</p> <p>87</p>	Briffiwyd aelodau'r Cabinet ym mis Chwefror 16. Cynhaliwyd sesiynau ffres ar gyfer aelodau etholedig newydd yn 2017 a 2019.
3	Creu tudalen ar StaffNet y Cyngor i roi gwybod i staff am eu cyfrifoldebau.	Fel uchod.	Fel uchod.	Mae rhestr o Cwestiynau Cyffredin ar Staffnet. Datblygwyd tudalen ar gyfer siaradwyr Cymraeg hefyd.

4	Hysbysu staff drwy gyfrwng y briff craidd a dulliau eraill.	Fel uchod.	Fel uchod.	Hysbyswyd y staff ym mis Chwefror 16 drwy'r briff craidd ac mae'r diweddariadau wedi parhau.
5	Sicrhau bod yr holl dempledi llythyrau a negeseuon e-bost yn ogystal ag ymatebion i'r wasg yn dangos argaeledd gwasanaeth Cymraeg ac sicrhau bod yr holl staff yn eu defnyddio nhw.	Gohebiaeth (yn cyfeirio hefyd at rai Safonau Gweithredol)	7 Hefyd yn ymwneud â Safonau Gweithredol 134/135	Mae templedi wedi'u rhoi i'r holl staff. Mae teitlau swyddi wedi'u cyfieithu yn ymddangos ar bob e-bost yn ogystal â logo amlwg ar gyfer siaradwyr a dysgwyr Cymraeg.
6	Darparu hyfforddiant 'Cwrdd a Chyfarch' i staff rheng flaen	Galwadau/cyfarfodydd ffôn	19,20,21,24-27	Hyfforddiant i staff a gynhaliwyd yn 2016/17 ac fe gynhaliwyd hyfforddiant ymwybyddiaeth yn gynnar yn 2018. Mae modiwl Croeso Cymraeg ar gael ar Staffnet fel rhan o'r fenter Croeso Cymraeg.
7	Sicrhau bod pob aelod o staff yn defnyddio negeseuon allan o'r swyddfa sy'n ddwyieithog. Darparu troedyn i ddangos a yw aelodau o staff yn siarad Cymraeg.	Gohebiaeth (yn cyfeirio hefyd at safonau gweithredol)	7, Hefyd yn ymwneud â Safonau Gweithredol 134/138	Rhan o Staffnet ac ar y briff craidd. Mae negeseuon allan o'r swyddfa wedi'u darparu i'r holl staff. Hefyd ddangosydd i siaradwyr Cymraeg a dysgwyr.
8	Sicrhau bod yr holl ddatganiadau i'r wasg yn ddwyieithog lle bo hynny'n bosibl.	Cyhoeddi Dogfennau a ffurflenni	46	Mae hyn wedi digwydd o 1 Ebrill 2016.
9	Sicrhau bod yr holl daflenni, dogfennau, datganiadau a datganiadau i'r wasg, lle y'u cyhoeddir yn Saesneg, yn cynnwys cyfeiriad at y ffaith bod fersiwn Gymraeg ar gael ar gais.	Cyhoeddi Dogfennau a ffurflenni	46	Mae hyn wedi digwydd o 1 Ebrill 2016.
10	Trefnwch cymorth i ddechrau proses o wneud y wefan gyfan yn ddwyieithog.	Gwefan a gwasanaethau ar-lein	52-56	Mae'r wefan bellach yn gwbl ddwyieithog.
11	Trefnu bod rhag-sgwennu ffurflenni yn cael ei wneud yn ddwyieithog	Gwefan a gwasanaethau ar-lein	51	Mae meddalwedd mewnol i gyd yn cael eu cyfieithu - mae meddalwedd

				allanol wrthi'n cael eu trefnu fel rhan o'r Strategaeth Ddigidol.
12	Sicrhau bod yr holl arwyddion a/neu hysbysiadau newydd neu a adnewyddir yn ddwyieithog gyda'r Gymraeg yn gyntaf.	Arwyddion/hysbysiadau	61-63	Atgoffwyd yr holl staff o hyn.
13	Sicrhau bod y prif dderbynfeydd yn darparu gwasanaeth Cymraeg gydag arwyddion yn rhoi gwybod am argaeledd y gwasanaeth hwnnw.	Derbynfeydd	64,67,68	Mae'r prif dderbynfeydd bellach yn ddwyieithog.
14	Rhaid i wahoddiadau am grantiau ddatgan y gellir gwneud cyflwyniadau yn Gymraeg a rhaid cynnig cyfweiliadau os gofynnir amdanynt. Ni ddylai fod oedi os defnyddir y Gymraeg. Rhaid i wahoddiadau i dendro am gontractau fod yn ddwyieithog a rhaid iddynt ddatgan bod croeso i dendrau Cymraeg. Ni ddylai fod oedi os defnyddir y Gymraeg.	Grantiau/Tendrau	72-75,76-77a	Mae'r wybodaeth hon wedi'i rhannu o fewn yr Adran Gyllid.
15	Asesu pob cwrs addysg newydd a gynigir i'r cyhoedd i werthuso'r angen i'w ddarparu yn Gymraeg <u>a chadw cofnod o'r asesiad.</u>	Addysg	84-86	Rhoddwyd gwybod i'r Tîm Addysg Oedolion a'r Gwasanaeth Ieuenctid am hyn.
16	Cyfieithu agendâu pob cyfarfod y Cyngor, y Cabinet, a Phwyllgorau	Democrataidd	41	Mae hyn wedi'i wneud o 1 Ebrill 2016 ymlaen.
17	Cyfieithu cofnodion pob cyfarfod y Cyngor, y Cabinet, a Phwyllgorau	Democrataidd	41	Mae agendâu'n ddwyieithog, gyda chynlluniau i gyhoeddi hysbysiadau o benderfyniadau a chofnodion yn fuan.

18	Cwblhau asesiad o'r effaith, gan gynnwys ystyriaeth o'r Gymraeg, ar gyfer pob polisi newydd neu rai wedi'u diwygio.	Polisiâu ac ymchwil	88-97	I'w gyflawni trwy gyfeirio at adroddiadau perthnasol y Cabinet/pwyllgorau.
19	Sefydlu grwp projectau i drefnu holiadau i bob aelod o staff	Sgiliau ieithyddol a dewisiadau iaith ar gyfer ffurflenni a gweithdrefnau	104, 127,100,101-103	Cynhaliwyd ail archwiliad yn 2018 o bob aelod o staff sy'n defnyddio cyfrifiadur ac mae'r canlyniadau nawr ar gael.
20	Cyfieithu pob polisi AD	Pob Polisi AD	105 – 111	Mae pob polisi bellach wedi'i gyfieithu.
21	Codi ymwybyddiaeth staff o ran cynnig darpariaeth Gymraeg mewn cysylltiad â chontractau, cwynion a sefyllfaoedd disgyblu	Briffio	99,114,118	Mae rhestr wedi'i llunio o'r defnyddwyr hynny sy'n gofyn am wasanaeth Cymraeg. Mae tudalen ar StafNnet yn rhestru'r eitemau penodol y mae'n rhaid i ni eu darparu yn Gymraeg.
22	Paratoi tudalen ar StaffNet ac erthygl briff craidd yn rhoi gwybod i staff sy'n siarad Cymraeg am eu hawliau a rhoi cymorth i ddysgwyr.	Gweithdrefnau AD	112 – 125,141-143	Mae'r rhain bellach ar gael.
23	Rhoi meddalwedd i staff sy'n siarad Cymraeg i wirio sillafu a gramadeg, yn ogystal â rhyngwynebau Cymraeg lle y bônt ar gael.	Meddalwedd TGCh	120	Mae 'Cysgeir' wedi'i osod ar gyfrifiaduron yr holl staff.
24	Cynnig cyfleoedd ar gyfer hyfforddiant Cymraeg sylfaenol i bob aelod o staff a hefyd i reolwyr os oes angen yn rhinwedd eu swydd. Dylai hyfforddiant pellach fod am ddim i'r cyflogai.	Hyfforddiant	130 -131	Mae cyrsiau blasu yn cael eu cynnal ac mae hyn wedi helpu i gynyddu nifer y dysgwyr ar gyrsiau llawn amser. Mae pob cwrs Cymraeg am ddim ac yn ystod oriau gwaith.
25	Darparu hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith Gymraeg	Hyfforddiant	132	Mae modiwl ar-lein newydd yn cael ei addasu a bydd yn cael ei gyflwyno i staff yn ystod haf 2021.

26	Cynnwys gwybodaeth am y Gymraeg yn y Cwrs Sefydlu Corfforaethol	Hyfforddiant	133	Mae gwybodaeth Gymraeg yn cael ei chyflwyno mewn sesiynau sefydlu.
27	Asesu pob swydd newydd a swydd wag ar gyfer y lefel ofynnol o allu Cymraeg fel y bo'n briodol – Hanfodol/Angen ei dysgu/Dymunol/Dim Angen	Adolygu gweithdrefnau	136	Mae pob rheolwr wedi cael gwybod. Mae pob swydd bellach wedi'i chategoreiddio naill ai fel Cymraeg Hanfodol neu Ddymunol
28	Mae'r holl ddeunydd perthnasol yn ymwneud â recriwtio ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg.	Gweithdrefnau recriwtio/dethol	137	Wedi'u cyfieithu ac yn cael eu dosbarthu yn ôl yr angen.
29	Paratoi polisi ar ddefnydd mewnol o'r Gymraeg	Ymwybyddiaeth	98	Mae copi ar gael. Mae angen adolygu hyn yn ystod 2021/22.
30	Dylai'r fewnwyd fod ar gael yn Gymraeg – hafan, tudalennau newydd/wedi'u diwygio a dewislenni.	Tîm Cyfathrebu/TGCh	122-126	Mae tudalennau dwyieithog ar gael ar y Staffnet.
31	Cyrsiau AD penodol i'w cynnig yn Gymraeg - <ul style="list-style-type: none"> - Recriwtio a Chyfweld - Rheoli Perfformiad - Gweithdrefnau Cwyno a Disgyblu - Sefydlu - Delio â'r cyhoedd - Iechyd a Diogelwch 	Hyfforddiant AD	128	Mae cyrsiau ar-lein yn cynnwys - Hyfforddiant Ar-lein Gorfodol ynglŷn â Thrais yn Erbyn Menywod
32	Darparu hyfforddiant ar ddefnydd effeithiol o'r Gymraeg mewn cyfarfodydd AD	Hyfforddiant	129	Bydd hyn yn cael ei drefnu yn 2021.
33	Nodi aelod o staff ym mhob adran i weithredu fel hyrwyddwr.			Mae hyn wedi'i wneud ac mae rhestr ar gael.

4. Gwybodaeth am berfformiad

Mae'r Cyngor yn casglu ac yn adrodd gwybodaeth am bob mesur sy'n fesur statudol cenedlaethol ac mae'n pennu targedau ar ei gyfer. Rydym hefyd wedi mabwysiadu nifer gyfyngedig o ddangosyddion lleol sy'n cynorthwyo'r gwaith o fesur cynnydd yn erbyn y cynllun hwn. Mae'r wybodaeth hon ar gael yn gyhoeddus drwy Gynllun Gwella'r Cyngor a thrwy cynlluniau gwasanaeth, sy'n cael eu cyhoeddi bob blwyddyn ac sydd ar gael ar wefan y Cyngor - www.bromorgannwg.gov.uk.

Yn ogystal â hyn, mae'r Cyngor yn cyhoeddi'r adroddiad hwn yn adran Cydraddoldeb gwefan y Cyngor ynghyd â data arall am faterion iaith.

Mae'r wybodaeth isod yn ymwneud â dangosyddion ar gais Comisiynydd y Gymraeg

<p>Safon 158 (2) 164 (2) 170 (2d)</p> <p>Nifer y cwynion am weithredu'r Cynllun Iaith Gymraeg.</p> <p>Bydd y dangosydd perfformiad hwn yn cael ei fesur ar sail nifer y cwynion am gynnwys neu'r dull o weithredu Safonau'r Gymraeg.</p>	<p>Cawsom nifer o sylwadau anffurfiol gan aelodau o'r cyhoedd. Gwnaethom ymateb yn unigol i'r rhain. Cawsom ddwy gŵyn ffurfiol gan Gomisiynydd y Gymraeg ac un gŵyn na chafodd ei hymchwilio.</p> <p>Roedd y gŵyn ffurfiol gyntaf yn ymwneud â mater Enwi Strydoedd ac rydym yn aros am ganlyniad yr ymchwiliad hwnnw. Rydym wedi drafftio polisi newydd ar y pwnc hwn a fydd yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet i'w gymeradwyo.</p> <p>Derbyniwyd yr ail gŵyn yn hwyr ym mis Mawrth 2021 ac roedd yn ymwneud ag arwydd wedi'i baentio ar y briffordd. Datryswyd hyn ar unwaith a chawsom</p>
--	--

	<p>neges o ddiolch gan yr achwynydd. Rydym wedi ysgrifennu at y Comisiynydd yn ddiweddar i ofyn a ellir terfynu'r ymchwiliad.</p>										
<p>Safon 170 (2a)</p> <p>Nifer y staff gyda sgiliau Cymraeg yn y Cyngor.</p> <p>Mae'r dangosydd hwn wedi'i fesur fel rhan o'r Arolwg Sgiliau Ieithyddol ym mis Medi 2018.</p>	<p>Cynhaliwyd arolwg sgiliau ieithyddol ar ddiwedd 2018 o holl ddefnyddwyr cyfrifiaduron. Dangosodd hyn fod 122 aelod o staff yn disgrifio eu sgiliau fel 'da' neu 'rhugl' o 1572 ymateb. Mae hyn yn ganran o 6%. Bwriedir cynnal archwiliad pellach ar gyfer 2021.</p>										
<p>Safon 170 (2b)</p> <p>Nifer y staff sy'n ymgymryd â hyfforddiant ac i ba lefel/radd o hyfedredd.</p> <p>Bydd hyn yn seiliedig ar nifer y staff sy'n ymgymryd â hyfforddiant Cymraeg a ddarperir gan y Cyngor. Adroddir y mesur hwn fel rhif o dan bob un o'r categorïau: Mynediad a Sylfaen; Canolradd; Uwch; Uwch/Meistroli.</p>	<p><u>2020-2021</u></p> <table> <tr> <td>Lefel Mynediad</td> <td>22</td> </tr> <tr> <td>Sylfaen</td> <td>3</td> </tr> <tr> <td>Canolradd</td> <td>14</td> </tr> <tr> <td>Uwch/Meistroli</td> <td>2</td> </tr> <tr> <td>Cyfanswm</td> <td>41</td> </tr> </table>	Lefel Mynediad	22	Sylfaen	3	Canolradd	14	Uwch/Meistroli	2	Cyfanswm	41
Lefel Mynediad	22										
Sylfaen	3										
Canolradd	14										
Uwch/Meistroli	2										
Cyfanswm	41										
<p>Safonau 154, 170 ch)</p> <p>Nifer y swyddi newydd a gwag a gategoreiddiwyd fel Cymraeg hanfodol a dymunol.</p>	<p>Rhwng Ebrill 2019 a Mawrth 2020 – cafodd 535 o hysbysebion eu gosod:</p> <ul style="list-style-type: none"> • 14 Cymraeg yn hanfodol • 372 Cymraeg yn ddymunol <p>Mae pob hysbyseb naill ai'n nodi bod y Gymraeg yn hanfodol neu'n ddymunol.</p>										

Blaenoriaeth barhaus y Cyngor ar gyfer 2020/21 yw cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg yn y gweithlu, i annog mwy o aelodau staff i ddysgu neu ddiweddarau eu sgiliau Cymraeg a hyrwyddo defnydd o'r iaith yn y Fro.